Cofnodion - Nos Lun 9fed o Fehefin yn Neuadd Pontgarreg / Zoom.

**YN BRESENNOL**: Mair Evans (Cadeirydd), Wendy Roberts, Gareth Jones a'r Cynghorydd Gareth Lloyd.

(7.30y.h. – 8.40 yh)

Meeting Minutes– Monday 9th of June at Pontgarreg Hall / Zoom

**PRESENT**:. Mair Evans (Chair) Wendy Roberts, Gareth Jones Councillor Gareth Lloyd.

(7.30p.m. – 8.40 p.m.)

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 | **Ymddiheuriadau** | 16 | **Apologies** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Kat Dawes, Morlais Davies, Cynyr Ifan, Gari Jones a Betsan O'Connor. | | Apologies were received from Cllrs Kat Dawes, Morlais Davies, Cynyr Ifan, Gari Jones and Betsan O'Connor as they were unable to attend the meeting**.** |
| 17 | **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu** | 17 | **Disclosures of Personal / Prejudicial Interests** |
| 18 | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blynyddol a'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 20fed o Fai** | 18 | To confirm the minutes of the meeting held on the 20th of May |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blynyddol a'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Fai yn cofnod cywir. | | The minutes of the annual meeting and the meeting held on 20th of May were confirmed as a true record. |
| 19 | **Materion yn codi** | 19 | **Matters arising** |
| 20 | **Adroddiad Cynghorydd Sir** | 20 | **County Councillor's Report** |
| | Ymddiheuriadau, ond rwy'n dal i aros am ddyddiad i gael ei drefnu i gwrdd â'r swyddog gorfodi. Ar ôl y cyfarfod diwethaf, cefais gysylltiad â'r swyddog unwaith eto trwy Clic, siaradais hefyd â'r uwch swyddogion yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio diwethaf a ddywedodd y byddent yn chwilio am ddiweddariad. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma.<br><br>Cyfarfod Cyngor llawn Dydd Iau – papurau wedi cyhoeddi ar y wefan. | | Unfortunately, I am still waiting for a date to be arranged to meet with the enforcement officer. Following the last meeting, I did contact the officer again via Clic, I also spoke to Senior Officers at the last planning committee meeting who said they would seek an update. No update has been received as yet.<br><br>Full Council meeting on Thursday – papers can be viewed on the website. |
| 21 | **Cyllid** | 21 | **Finance** |
| | Balans Agoriadol - £16,490.69 | | Opening Balance - £16,490.69 |
| | 21.01 Cyflog Clerc June - £176.09<br>21.02 HMRC June - £44.00<br>21.03 Defib 4 Life - £70.74 | | 21.01 Clerk Salary June - £176.09<br>21.02 HMRC June - £44.00<br>21.03 Defib 4 Life – £70.74 |
| | Balans wrth cau - £16,199.86 | | Closing Balance - £16,199.86 |

22 **Ceisiadau Cynllunio**

Dim ceisiadau.

22 **Planning Applications**

No applications.

23 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Dim ceisiadau.

23 **Request for financial assistance**

No requests.

24 **Gohebiaeth**

24 Correspondence

24.01 Toiledau Llangrannog

Yn dilyn yr e-bost diweddar gyda chopïau o'r SLA gan swyddogion, cytunodd y cynghorwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod heno i wahodd y Pwyllgor Lles i cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned nesaf i drafod dyfodol y toiledau - efallai y dylid ystyried creu deiseb a chyflwyno cyfarfod cyhoeddus hefyd. Bydd y clerc yn cysylltu â'r pwyllgor.

24.01 Llangrannog toilets

Following the recent email with a copy of the SLA from officers, the Councillors in attendance at the meeting tonight agreed to invite the Welfare Committee to the next Community Councill meeting to discuss the future of the toilets – possibly look to create a petition and also hold a public meeting. Clerk to contact the committee.

24.02 Ymgynghoriad Hywel Dda

Mae digwyddiad ar-lein nos Iau yma am 6.30pm i Gynghorau Tref a Chymuned i fynychu i drafod yr Ymgynghoriad Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

24.04 Hywel Dda Consultation

There is an online event this Thursday at 6.30pm for Town and Community Councils to attend to discuss the Clinical Services Plan Consultation.

24.03 Hyfforddiant Cynghorwyr

Trafod yn y cyfarfod nesaf.

24.03 Councillor Training Plan

Defer until the next meeting.

24.04 Holiadur yn dilyn hyfforddiant Cod Ymddygiad 11/2/25 – CSC

Cynhelwyr yn y cyfarfod cwblhaodd y cynghorwyr y holiadur gyda'r Clerc.

24.04 Feedback questionnaire following the Code of Conduct training by CCC on the 11/2/25

Councillors in attendance completed the questionnaire with the Clerk.

24.05 Adolygu trefniadau cymunedol Sir Ceredigion

Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar, cytunwyd i ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn os bod modd herio’r penderfyniad. Hefyd cytunwyd i ysgrifennu at adran etholiadau Cyngor Sir Ceredigion i ofyn beth yn gwmws bydd y trefniadau a sut bydd y Sir yn ein cefnogi.

24.05 Review of community arrangements of the County of Ceredigion

Following the recent announcement, it was agreed to write to One Voice Wales to ask if it is possible to challenge the decision. It was also agreed to write to the elections department of Ceredigion County Council to ask what exactly the arrangements will be and how the County will support us.

24.06 Ymateb Cyngor Sir Ceredigion ymgynghoriad cyflymder 20mya

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r terfynau cyflymder 20mya ledled y sir, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i gasglu adborth trigolion am y terfynau newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2023. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau 'eithriad 30mya' newydd yn 2024 i gynorthwyo Awdurdodau Lleol gyda'r ymarfer hwn. Mae'r ddogfen sydd wedi’i hatodi yn crynhoi'r adolygiad hwn, y meini prawf allweddol yn y canllawiau, a chanlyniad dim newidiadau i derfynau cyflymder.

Ym mis Mehefin 2024 cafodd Cyngor Sir Ceredigion geisiadau gan amrywiol Gynghorau Cymuned yn ymwneud â'r adolygiad hwn drwy Elin Jones AS. Gofynnodd Cyngor Cymuned

24.06 Ceredigion County Councils review of the 20mph speed limit

Ceredigion County Council has undertaken a comprehensive review of the 20mph speed limits across the county, following a request from the Welsh Government to gather residents' feedback about the new limits that were introduced in September 2023. The Welsh Government provided new '30mph
25 exception' guidance in 2024 to assist Local Authorities with this exercise. The attached document summarises this review, the key criteria in the guidance, and the outcome of no changes to speed limits.

In June 2024 Ceredigion County Council received requests from various Community Councils relating to this review via Elin Jones AM. Llangrannog Community Council requested arrangements on the

Llangrannog am gynnwys trefniadau ar yr C1012 o'r gyffordd â Pigeonsford i'r gyffordd â'r lôn i Fferm Penrallt yn yr adolygiad. Gan ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru yn agos, ni chododd unrhyw newid i'r trefniadau am y rhesymau canlynol:
*Roedd cyflymderau cyn Medi 2023 eisoes yn isel, a dim ond 315m o hyd yw'r ffordd, felly newid dibwys mewn amseroedd teithio. Does dim troedffordd, ac mae'r ffordd yn gul, gyda cherbydau mwy yn gwrthdaro.*

C1012 from the junction with Pigeonsford to the junction with the lane to Penrallt Farm be included in the review. Using the Welsh Government guidance closely, no change to arrangements arose for the following reasons:

*Speeds pre-Sept 2023 already low, and the road is only 315m in length, so insignificant change in travel times. There is no footway, and the road is narrow, with larger vehicles coming into conflict.*

Gwnaed cais hefyd am derfyn cyflymder is ym Mlaencelyn, a oedd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. Fel y soniwyd yn y crynodeb atodedig o'r adolygiad, mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu awdurdodau lleol ei bod yn bwriadu cyhoeddi canllawiau newydd pellach ar gyfer pennu terfynau cyflymder lleol ac mae disgwyl y bydd awdurdodau priffyrdd lleol yn adolygu terfynau cyflymder ar ffyrdd a oedd y tu allan i gwmpas y newid cenedlaethol i derfynau cyflymder yn 2023. Bydd unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder ar ffyrdd sy'n dod o dan awdurdodaeth Cyngor Sir Ceredigion yn amodol ar argaeledd adnoddau i gynnal adolygiad ac yna i weithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

A request was also made for a lower speed limit at Blaencelyn, which was outside the scope of this review. As mentioned in the attached summary of the review, the Welsh Government has informed local authorities that it intends publishing further new guidance for setting local speed limits and there is an expectation that local highway authorities will review speed limits on roads that were outside the scope of national change to speed limits in 2023. Any changes to speed limits on roads that fall under the jurisdiction of Ceredigion County Council will be subject to the availability of resources to undertake a review and then to implement any changes arising from this review.

Cafwyd cais hefyd ynglŷn â'r terfyn cyflymder ar yr A487 ym Mhentregât, nad oes gan y Cyngor awdurdodaeth drosti. Dylid cyfeirio'r cais hwn at Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

A request was also received regarding the speed limit on the A487 at Pentregat, on which the Council has no jurisdiction. This request should be addressed to the Welsh Government directly.

24.07 E-bost gan breswylydd – torri gwair a dessau

Derbyniwyd e-bost oddi wrth preswylydd yn gofyn am ddiweddariad ar y fainc wedi'u torri. Trafododd y cynghorwyr y fainc a cytunwyd i gael pris am 2 fainc newydd ar gyfer Heol y Garreg a Blaencelyn yn gyntaf. Yn ymwneud a torri porfa , dylai'r Clerc esbonio bod y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am dorri'r cae ger Neuadd Pontgarreg ac o amgylch y fainc sy'n perthyn i'r Cyngor Cymuned. Byddai pob ardal arall yn gyfrifoldeb Cyngor Sirol Ceredigion a dylid annog iddynt e-bostio drwy clic@ceredigion.gov.uk.

24.07 Email from resident – broken benches, grass cutting and weeding

An email was received from a resident seeking an update on the broken benches. Councillors discussed the benches and it was agreed to get a price for 2 new composite benches for Heol y Garreg and Blaencelyn initially. With regards to the grass cutting and weeding, Clerk to explain that the Community Council is responsible to cut the field by Pontgarreg Hall and also around the benches that belong to the Community Council. All other areas would be the responsibility of Ceredigion County Council and urge then to email via clic@ceredigion.gov.uk.

25 Materion i adrodd

25 Matters to report

26 Materion i'w drafod ar agenda cyfarfod nesaf

Ymgynghoriad Safleoedd Gwastraff Cartref

26 Matters to discuss on next month's agenda

Review of Household Waste Sites

27 Trefniadau'r cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 7fed o Orffennaf 2025 yn Neuadd Pontgarreg / Zoom am 7.30pm

27 Arrangements for next meeting

The next meeting will be held on Monday 7th of July 2025 at Pontgarreg Hall / Zoom at 7.30pm.

Diolchodd y cynghorwyr i'r Cynghorydd Mair Evans am ei blynyddoedd o wasanaeth ar y Cyngor Cymuned a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Councillors thanked Councillor Mair Evans for her years of service on the Community Council and wished her well for the future.